# GweithdaiAber:

## Ffilm, Teledu a Chyfryngau

**Dod â'n harbenigwyr academaidd ni at eich dysgwyr chi**



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Beth yw GweithdaiAber?

**Mae GweithdaiAber yn rhoi cyfle i'ch dysgwyr gael trafod â'n staff academaidd cyfeillgar a chael eu dysgu ganddynt.**

Bydd ein staff yn trafod deunydd safonol yn y pwnc, ac yn ogystal â sicrhau bod y disgyblion yn dysgu mwy am y maes, y nod hefyd yw eu hannog i ystyried mynd ymlaen i astudio Drama a Theatr yn y dyfodol.

Mae gennym amrywiaeth o ddarlithoedd/gweithdai â gogwydd academaidd iddynt i'w cynnig mewn nifer o wahanol bynciau. Er na ellir gwarantu y bydd pob gweithdy wastad ar gael, mae GweithdaiAber yn hyblyg:

- **Gallwn eu hamrywio o ran eu hyd**
- **Maent yn addas i gynulleidfaoedd bach neu fawr**
- 12-13 **Cyflwynadwy i grŵpiau blwyddyn 12-13**
- **Ar gael dros y we**
- **Ar gael wyneb-yn-wyneb yn yr ysgol neu'r coleg**
- **Ar gael ar gampws Prifysgol Aberystwyth**
- **Open to learners with no prior knowledge of the subject, as well as those with an interest in the field. Learners do not need to be studying Film, Television and Media in school or college**

I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**


# Cyflwyniad i'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

**Mae ystod eang o bynciau ar gael ar ein rhaglenni astudio israddedig, ac maent yn cynnig addysgu arbenigol ar wneud ffilmiau dogfen, gwneud ffilmiau ffuglen, gwneud ffilmiau arbrofol, cynyrchiadau aml-lwyfan, cynyrchiadau stiwdio a sgriptio, yn ogystal â sinema gelf, sinema arswyd a chwlt, Hollywood, astudiaethau rhywedd, estheteg teledu, diwylliannau digidol, gemau fideo, ac astudiaethau'r cyfryngau a chyfathrebu.**

Mae hanes hir yr Adran yn tystio i'w dawn dysgu. Mae ei hymchwil yn rhoi sylw'n bennaf i astudiaeth o theatr, ffilm, perfformio a'r cyfryngau mewn cyd-destunau diwylliannol hanesyddol, daearyddol a gwleidyddol. Mae'n pwysleisio arloesedd ffurfiol, datblygiadau technolegol ac ymholi rhyngddisgyblaethol.

Mae ein staff a gydnabyddir yn rhyngwladol yn ddramodwyr, yn berfformwyr, yn gyfarwyddwyr theatr, yn senograffwyr, yn wneuthurwyr ffilmiau, yn guraduron, yn gyfathrebwyr yn y cyfryngau, ac yn academyddion sy'n gweithio yn y croestoriad rhwng y damcaniaethol a'r ymarferol. Mae ganddynt enw da proffesiynol cadarn am ysgrifennu drama deledu (e.e. Doctors a Hollyoaks), drama radio, ac addasiadau a dramâu. Maent hefyd yn rhan o amrywiaeth o gydweithrediadau creadigol cyffrous, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae ein cwricwlwm/modiwlau wedi'u cynllunio i arfogi ein dysgwyr â chyfuniad o sgiliau ymarferol, hyder creadigol ac ymwybyddiaeth feirniadol.



# GweithdaiAber Ffilm, Teledu a Chyfryngau

### Film and Representation - Dr Greg Bevan

EN IP V

Bydd y sesiwn ryngweithiol hon yn rhoi strategaethau i ddisgyblion ar gyfer deall sut mae gwneuthurwyr ffilm yn portreadu'r byd o'u cwmpas, yn ogystal â sut mae'r delweddau y maen nhw'n eu creu yn cael eu dehongli gan gynulleidfaoedd yn y pen draw. Gan edrych yn benodol ar ffyrdd o gynhyrchu delweddaeth fynegiannol ar hyd continwwm sy'n amrywio o gynrychioladol i haniaethol, mae'r sesiwn wedi'i hanelu at y rhai sydd â diddordeb mewn theori ffilm ac mewn ymarfer creadigol ffilm.

### Directing and Film Space - Dr Greg Bevan

EN IP

Mae'r gweithdy ymarferol hwn yn edrych ar yr egwyddorion a'r technegau sylfaenol a ddefnyddir gan gyfarwyddwyr ffilm a sinematograffwyr i greu stori a gwybodaeth am gymeriadau trwy drin gofod ar y sgrin. Bydd disgyblion yn craffu ar y theori a'r arfer o gyfleu elfennau tri dimensiwn y byd go iawn ar y sgrin.

### Ailadrodd a Gwahaniaeth yn Y Gwyll - Dr Kate Woodward

EN CY IP V

Bydd y sesiwn hon yn edrych ar Y Gwyll trwy lens damcaniaeth genre Steve Neale o ailadrodd a gwahaniaeth. Byddwn yn edrych ar leoliad a phenodoldeb y gyfres, yn ogystal â'r nodweddion y mae'n eu rhannu â 'Noir Nordig' a 'Noir Celtaidd'. I ba raddau y gall cyfres sydd wedi'i gwreiddio mewn tirwedd benodol gael cynulleidfa ryngwladol lwyddiannus? Pa fath o effeithiau sydd wedi bod ar dwristiaeth? Sut mae Hinterland / Y Gwyll yn arwydd o newidiadau yn ecoleg ddarlledu Cymru? A lle yn union mae carafán Mathias?!

**Allwedd:**

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

### Genre in Film - Dr Lisa Richards

EN IP V

Cyflwyniad cyffredinol i Genre mewn ffilm, gan symud o'r rhesymau gwreiddiol dros ddatblygu genres yn Hollywood, ac edrych ar sut mae genres allweddol wedi esblygu a hybrideiddio ar draws hanes ffilm.

### Women in TV Police dramas - Dr Lisa Richards

EN IP V

Braslun: Trafodaeth ar y newid yn y ffordd y caiff menywod eu portreadu yn y genre hwn, o Dixon of Dock Green i No Offence.

### A Brief History of Music Videos – James Caddick

EN IP V

Mae cerddoriaeth a delweddau wedi cael eu cyfuno ers y sinema gynnar. Gyda dyfodiad MTV daeth y fideo cerddoriaeth yn ffurf gelfyddyd gyffredin gyda chynulleidfa sylweddol. Mae arddull a chynnwys fideos cerddoriaeth wedi bod ar sawl ffurf wahanol ac wedi bod yn gonglfaen ym maes gwneud ffilmiau creadigol. Mae wedi bod yn fan cychwyn i yrfaoedd cyfarwyddwyr ffilmiau nodwedd adnabyddus yn ogystal â dull o fynegiant sydd wedi chwalu ffiniau a chyfleu llais gwleidyddol. Rydym yn edrych ar hanes fideos cerddoriaeth, eu heffaith, a'u ffurfiau amrywiol.

### What is Documentary film? - Prof Jamie Medhurst

EN IP V

Diffiniwyd ffilmiau dogfen fel 'the creative treatment of actuality' gan John Grierson; tad ffilmiau dogfen Prydain, fel y'i gelwid. Ond beth mae hyn yn ei olygu? Bydd y gweithdy hwn yn mynd â ni yn ôl i ddyddiau cynnar ffilmiau dogfen hyd at y presennol, a bydd yn ystyried cerrig milltir/mudiadau dogfen allweddol, gan gyfuno dadansoddiad hanesyddol a theori dogfen i drin a thrafod y genre cymhleth hwn.

### The BBC @100 - Prof Jamie Medhurst

EN IP V

Sefydlwyd y BBC 100 mlynedd yn ôl ym 1922. Bydd y ddarlith hon yn trafod gwreiddiau'r BBC, sut y daeth i fodolaeth, dylanwad y Rheolwr Gyfarwyddwr cyntaf, John Reith, a sut mae'r BBC wedi addasu dros y blynyddoedd i fodloni gofynion amgylchedd gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol newidiol - a chynulleidfa sy'n newid.

## Media Ownership and Control - Prof Jamie Medhurst

EN IP V

'Concentration creates conditions in which wealthy individuals and organisations can amass huge political and economic power and distort the media landscape to suit their interests and personal views' (Cynghrair Diwygio'r Cyfryngau). Yn y gweithdy hwn, byddwn yn ystyried pwy sy'n rheoli ac yn berchen ar y cyfryngau ym Mhrydain - a byddwn yn gofyn y cwestiwn, 'a yw o bwys mewn gwirionedd?' Byddwn hefyd yn meddwl am y cysyniad o luosogrwydd yn y cyfryngau yng nghyd-destun perchnogaeth a rheolaeth.

## Fake News, Misinformation and Disinformation - Prof Jamie Medhurst

EN IP

Er nad yw straeon gwneud neu straeon ffug yn ffenomen newydd fel y cyfryw, mae dyfodiad a thwf y cyfryngau cymdeithasol wedi cael effaith fawr ar greu a lledaenu newyddion - gan gynnwys 'newyddion ffug' fel y'i gelwir. Bydd y sesiwn hon yn trafod rhai o'r materion hyn ac yn gofyn y cwestiwn - beth allwn ni ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem?

## The importance of story - Dr Lucy Gough

EN IP

Sesiwn ymarferol sy'n cyflwyno'r broses o lunio stori ar gyfer opera sebon a beth mae hyn yn ei ddysgu i chi am stori.

**Only available on a visit to Aberystwyth.**

## What is audio drama? - Dr Lucy Gough

EN IP

Sesiwn ymarferol ar yr hyn sy'n gwneud drama sain yn wahanol a sut i fynd ati i'w hysgrifennu.

**Only available on a visit to Aberystwyth.**

## Allwedd:

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

## Sound Design - Dr Rod Munday

EN IP V

"Sound is half the experience in seeing a film", meddai George Lucas, y gwneuthurwr ffilmiau sy'n gyfrifol am y saga Star Wars. Yn y ddarlith ddarluniadol hon byddaf yn diffinio beth yw dylunio sain ac yn darparu llawer o enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r trac sain yn cyd-greu'r profiad sinematig ynghyd â'r delweddau ar y sgrin. Erbyn diwedd y ddarlith, gobeithio y byddwch yn deall sut y gall sain wneud i chi weld pethau'n wahanol.

## Sound Foley Workshop - Dr Rod Munday

EN IP

Gellir diffinio Foley fel effeithiau sain sy'n cael eu perfformio ar gyfer ffilmiau. Mae'n cynnwys pobl yn actio'r holl synau a glywir mewn golygfa, ac eithrio'r ddeialog. Fe'i defnyddir yn fwyaf cyffredin mewn ffilmiau i ail-greu sŵn traed, ond gellir ei ddefnyddio at ddibenion mwy diddorol a mwy creadigol. Yn y sesiwn ymarferol hon, byddwch chi'n ail-greu synau awtopsi ar estron, a byddwch chi'n dysgu sut y gall theori'r dechneg Foley a'i rhoi ar waith helpu i adrodd straeon gweledol yn well.

**Only available on a visit to Aberystwyth**

## The Influence of Painting on Film Production Design - Sarah-Jane Harrison

EN IP V

Mae arddull weledol llawer o ffilmiau wedi'i dylanwadu gan gyfryngau eraill, tra bydd ffilmiau eraill yn cynnwys cyfeiriadau uniongyrchol. Er bod llawer o ffilmiau sy'n nodedig am eu teyrnged i artistiaid y gorllewin, yn enwedig 'Hen Feistri' Ewrop, byddwn yn edrych ar sut mae'r ffilm Shadow (Yimou 2018) yn defnyddio paentiadau golch inc Tsieneaidd fel ysbrydoliaeth ar gyfer ei arddull weledol, a sut mae'r dewis hwn yn ychwanegu ystyr i'r ffilm. Trwy dynnu sylw at rôl Dylunio Cynyrchiadau ym maes ffilm, bydd disgyblion yn dod yn ymwybodol o'r adran hon, a'r effaith y mae'n ei chael ar y ffilmiau rydyn ni'n eu caru.

## An Introduction to Alternative Cinema - Dr Kim Knowles

EN IP V

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gyfarwydd ag iaith sinema naratif prif ffrwd - rydyn ni'n dod ar ei draws drwy gydol ein bywydau. Ond mae'r delweddau symudol yn fwy na dim ond straeon a chymeriadau; mae'n ffurf gelf amlweddog a all wneud i ni fyfyrio a'n herio i weld y byd o'r newydd trwy argraffiadau haniaethol a chysylltiadau rhythmig. Mae'r ddarlith hon yn gyflwyniad i'r maes cyffrous hwn o ymarfer ffilm amgen. Agorwch eich llygaid!




Adran Astudiaethau Theatr,
Ffilm a Theledu,
Prifysgol Aberystwyth,
Adeilad Parry-Williams,
Aberystwyth, SY23 3AJ

+44 (0) 1970 62 1537
tfts@aber.ac.uk
/AberystwythTFTS
@aberystwythtfts

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan yr Adran
Farchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2025.

111866-01.25
Credyd delweddaeth: freepik.com/stories